

Cyngor Partneriaeth Cymru - 2 Mawrth 2023

Drwy Microsoft Teams

Sylwadau agoriadol y Cadeirydd

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

1. Croesawodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.
2. Nododd y Gweinidog fod cofnodion y cyfarfod blaenorol (24 Tachwedd 2022) wedi cael eu dosbarthu a gofynnodd a oedd unrhyw sylwadau neu ddiwygiadau, ond ni chafwyd rhai.
3. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd fod yr holl gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol naill ai'n gyflawn neu mewn llaw.

Eitem 1 ar yr Agenda: Newid yn yr Hinsawdd (eitem sefydlog)

4. Cyflwynodd y Gweinidog yr eitem sefydlog ar Newid yn yr Hinsawdd. Esboniodd y Gweinidog y bydd yr eitem hon yn cynnwys diweddariad byr gan Tim Peppin, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), ar gynnydd Panel Strategaeth Hinsawdd y Llywodraeth Leol a rhaglen gymorth CLILC ac yna cyflwyniad gan Richard Millar o Bwyllgor y Du ar Newid yn yr Hinsawdd.

Panel Strategaeth Hinsawdd a Rhaglen Gymorth CLILC

5. Gwahoddodd y Gweinidog Tim Peppin i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Banel Strategaeth Hinsawdd y Llywodraeth Leol a rhaglen gymorth CLILC. Dosbarthwyd adroddiad cryno i'r aelodau cyn y cyfarfod.
6. Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariadau ar gynnydd ers cyfarfod diwethaf Cyngor Partneriaeth Cymru (y Cyngor Partneriaeth) ym mis Tachwedd 2022 a manylion adolygiad o ffyrdd y Panel Strategaeth Hinsawdd o weithio wrth i ffocws y gwaith newid o ymchwilio / blaenoriaethu i gyflawni/gweithredu.
7. Roedd hefyd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor Partneriaeth i'r newid arfaethedig yn y dull gweithredu yn dilyn yr adolygiad, fel yr amlinellir ym mharagraffau wyth a naw yr adroddiad. Cynigiodd y Gweinidog fod Cyngor Partneriaeth Cymru yn derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad. Cytunodd yr aelodau.

Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd

8. Fe wnaeth y Gweinidog groesawu Richard Millar o Bwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd i'r cyfarfod ar gyfer ei gyflwyniad ar *Risgiau Newid yn yr Hinsawdd i'r DU ac i Gymru*. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r sleidiau'n cael eu rhannu â'r aelodau ar ôl y cyfarfod.

9. Yn dilyn y cyflwyniad, agorodd y Gweinidog y drafodaeth i'r aelodau er mwyn codi unrhyw gwestiynau, sylwadau a myfyrdodau. Codwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Anthony Hunt at rai enghreifftiau o weithgarwch diweddar a wnaed gan Fwrdeistref Sirol Torfaen a oedd â manteision hirdymor ond a oedd wedi wynebu rhywfaint o wrthwynebiad yn y tymor byrrach. Rhannodd y Cynghorydd Hunt enghraifft o gynlluniau'r Cyngor ar gyfer fferm solar a oedd wedi wynebu oedi a sylwadau negyddol yn y wasg leol. Teimlai ei bod yn bwysig i bartneriaid gefnogi ei gilydd drwy'r heriau.
- Roedd gan y Cynghorydd Huw Thomas ddiddordeb mewn gweld yr enillion ar Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) yng nghyflwyniad Richard Millar. Cadarnhaodd ei fod yn rhannu pryderon y Cynghorydd Hunt ynghylch heriau byrdymor yn yr hirdymor. Roedd Cyngor Caerdydd hefyd wedi adeiladu fferm solar 2500 megawat ond roedd wedi wynebu oedi rhwystredig. Roedd cael y cydbwysedd yn iawn yn allweddol ac roedd angen i bawb weithio gyda'i gilydd fel tîm i sicrhau bod atebion ac addasiadau i newid yn yr hinsawdd ar waith yn effeithiol, ac ni ddylai hyn fod yn ymarfer 'ticio bwlch'. Cadarnhaodd y Cynghorydd Thomas fod y ganran uchaf o allyriadau yng Nghaerdydd yn deillio o drafnidiaeth ac yna tai (mewn dwylo preifat yn bennaf) i gyd yn erbyn cyd-destun ehangach cyllidebau wedi'u gwasgu, ac fe wnaeth holi a oedd Richard Millar yn ymwybodol o unrhyw fuddsoddiad lefel werdd a allai fod ar gael.
- Cadarnhaodd y Canon Aled Edwards ymrwymiad llawn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i newid yn yr hinsawdd, gan nodi ei fod yn gwybod beth mae'r dasg yn ei olygu iddynt a'u bwriad i gyflawni lle gallent. Roedd yn teimlo mai un rhwystr enfawr i Barciau Cenedlaethol oedd adnoddau a chapasiti. Hefyd, mae angen i Gymru fod yn ymwybodol o ehangder deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. Cododd Canon Edwards hefyd fater yn ymwneud â llifogydd yng nghymoedd Cymru a'r angen i ddeall beth y gellid ei wneud i addasu i'r broblem a/neu ei lliniaru.
- Dywedodd y Cynghorydd Andrew Morgan fod newid yn yr hinsawdd eisoes wedi'i wneud, ac roedd effeithiau tywydd eithafol ar waith yn barod. Storm Denis yw un o'r stormydd mwyaf i ni ei chael yma, ond mae angen cynllunio ar gyfer hynny eto. Cadarnhaodd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi lleihau ei ôl troed carbon o 42%, ond mae'n ymwybodol bod angen gwneud mwy o hyd. Teimlai fod gan y sector cyhoeddus rôl i'w chwarae o ran arwain drwy esiampl a theimlai fod angen ymgyrch newid yn yr hinsawdd i helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd gwneud newidiadau bach. Teimlai hefyd ei bod yn bwysig parhau i fuddsoddi mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd ond fe wnaeth gydnabod y buddsoddiad hirdymor sylweddol y byddai'r llywodraeth ei angen. Dywedodd Ceri Williams, TUC Cymru, ei fod yn falch o weld bod y cyflwyniad yn cydnabod risgiau sy'n ymwneud â busnesau a gweithwyr, ond awgrymodd y dylai'r ffocws fod yn fwy ar y gweithwyr eu hunain ac nid ar gynhyrchiant yn unig. Nododd fod siarter gweithwyr teg yn yr Alban i gefnogi cyflogwyr a gweithwyr i gynllunio a rheoli

effeithiau tywydd garw <https://www.gov.scot/publications/severe-weather-charter/>

- Holodd y Cynghorydd Rob Stewart, pe na bai'r targed i gyrraedd Cymru Sero Net erbyn 2050 yn cael ei gyrraedd, beth fyddai'r ganran y byddai Cymru'n ei chyfrannu at newid byd-eang? Mae angen sicrhau bod yr holl lywodraeth a phartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i wneud newid. Nododd y Cynghorydd Stewart fod cynllun gweithredu ar gyfer Cyngor Abertawe i ddod yn sero net wedi'i gostio ar £750m ac roedd yn cydnabod y byddai angen cymorth ariannol gan Lywodraeth y DU, nid gan Lywodraeth Cymru. Cyngor Abertawe oedd â'r fflyd werdd fwyaf yng Nghymru ond roedd yn dal yn fach o ran canran y fflydoedd. Roedd premiymau ar gerbydau trydan a hydrogen yn dal yn gostus iawn, sy'n cyfyngu ar raddfa a chyflymder y newidiadau y byddai awdurdodau lleol eisiau eu gwneud. Roedd y costau a oedd yn gysylltiedig â threfniadau llifogydd Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 hefyd yn sylweddol. Teimlai'r Cynghorydd Stewart ei bod yn bwysig sicrhau bod polisïau ar waith i dyfu'r economi ac, yn ei dro, i gefnogi newid yn yr hinsawdd – roedd cael y cydbwysedd iawn yn bwysig.
- Pwysleisiodd y Cynghorydd Mark Pritchard bwysigrwydd buddsoddi i arbed er mwyn cefnogi'r maes hwn. Roedd hefyd yn teimlo bod lliniaru a rheoli risgiau newid yn yr hinsawdd yn bwysig a gofynnodd lle gallai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau i gefnogi hyn. Nododd fod targedau newid yn yr hinsawdd yn heriol ac o ganlyniad roedd angen ystyried y posibilrwydd na ellir cyflawni pob un ohonynt. Felly, teimlai ei bod yn hanfodol bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd ac yn dod o hyd i ffordd addas ymlaen.

10. Fe wnaeth y Gweinidog ddiolch i Richard Millar am ei gyflwyniad, a oedd wedi arwain at drafodaeth bwysig iawn. Awgrymodd y Gweinidog y byddai'n ddefnyddiol clywed mwy am adolygiad y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd o gynllunio addasu yng Nghymru a byddai'n awyddus i Richard ddychwelyd i Gyngor Partneriaeth Cymru i gael yr wybodaeth ddiweddaraf unwaith y byddai'r adolygiad wedi'i gwblhau, a rhagwelir y byddai hynny yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

11. Daeth y Gweinidog â'r eitem i ben drwy atgoffa aelodau o'r ymgynghoriad cyfredol o'r enw Pontio Teg tuag at Sero Net Cymru (a fydd yn dod i ben ar 15 Mawrth 2023): cais am dystiolaeth i lywio'r gwaith o ddatblygu llwybr datgarboneiddio Cymru i Sero Net erbyn 2050 [Pontio Teg tuag at Sero Net Cymru | LLYW.CYMRU](#)

Cam gweithredu 1: Rhannu sleidiau cyflwyniad Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU ar *Risgiau newid yn yr hinsawdd i'r DU ac i Gymru* gydag aelodau'r Cyngor Partneriaeth

Eitem 2 ar yr Agenda: Parhau i adolygu'r trefniadau partneriaeth rhanbarthol

12. Diben yr eitem oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y gwaith sy'n mynd rhagddo i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu / Cytundeb Cydweithio i Barhau i adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol gyda phartneriaid lleol. Dosbarthwyd papur i'r aelodau cyn y cyfarfod.
13. Fe wnaeth y Gweinidog groesawu Cefin Campbell AS i'r cyfarfod, Aelod Dynodedig y Cytundeb Cydweithio ar gyfer yr ymrwymiad hwn. Cadarnhaodd fod yr ymrwymiad yn adeiladu ar yr Adolygiad o Bartneriaethau Strategol a gynhaliwyd yn 2019-2020. Roedd argymhellion yr adolygiad hwnnw'n glir mai cyfrifoldeb partneriaethau lleol oedd arwain y gwaith o gysoni partneriaethau yn eu hardal, gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ysgwyddo rôl arweinyddiaeth strategol. Roedd yr adolygiad hefyd yn argymhell y dylai Cyngor Partneriaeth Cymru adolygu tirwedd y bartneriaeth o bryd i'w gilydd i ystyried a oes angen i Lywodraeth Cymru gamu i mewn i gefnogi gweithredu lleol, a phryd a ble. Ym mis Mehefin 2020, nododd Cyngor Partneriaeth Cymru ganlyniad yr adolygiad hwnnw.
14. Gofynnodd y Gweinidog am farn ar y meysydd i'w hystyried a nodir ym mharagraff 17 y papur. Codwyd y pwyntiau allweddol canlynol:
 - Dywedodd Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru, fod hwn yn ddarn pwysig o waith, ac roedd yn edrych ymlaen at ddod i gasgliadau. Cytunodd â'r egwyddor sylfaenol, fel y cyfeirir ati yn y papur a ddosbarthwyd i aelodau, sef y dylai ardaloedd lleol allu cynllunio'r dirwedd bartneriaeth yn lleol. Cyfeiriodd at dri model gwahanol o weithio ar draws ardal De Cymru. Dywedodd Michael, y Comisiynydd Heddlu a Throseddau, fod angen dull gweithredu ar y cyd o hyd rhwng diogelwch cymunedol a diogelu, gyda'r ddau yn rhannu'r nod o wneud cymunedau'n fwy diogel. Cyfeiriodd hefyd at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel un sy'n bellgyrhaeddol, a nododd ei bod yn werthfawr bod y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn ymwneud â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ond dywedodd nad oes cysylltiad cyfatebol â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Rhoddodd grynoded o'r ffaith bod ganddo ddiddordeb mewn sicrhau bod llinell welediad glir a chysylltiad rhwng partneriaethau.
 - Nododd y Cyngorydd Anthony Hunt ei fod yn eiriolwr dros weithio mewn partneriaeth ranbarthol dan arweiniad lleol ac roedd yn cydnabod bod angen strwythurau er mwyn i hyn weithio. Ychwanegodd ei fod yn teimlo mai perthnasoedd, ar lefel arweinyddiaeth a gweithredol, yw'r peth pwysicaf o ran effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth.
 - Cyfeiriodd y Cyngorydd Huw Thomas at waith yng Nghaerdydd ar adolygu blaenoriaethau'r bartneriaeth a'r trefniadau cyflawni. Nododd fod y gwaith hwn wedi ail-lunio trefniadau partneriaeth o amgylch Cynlluniau Llesiant a Chynlluniau Ardal, yn dileu dyblygu ac yn nodi'n glir beth sydd o fewn cylch gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a beth sydd o fewn cylch gwaith y

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Ychwanegodd fod eglurder hefyd ynghylch y trefniadau goruchwyllo gyda phartneriaethau eraill. Dywedodd y Cyngorydd Thomas y byddai'n fodlon rhannu'r adroddiad ar yr adolygiad gyda swyddogion, ac i swyddogion Llywodraeth Cymru ei drafod.

Nododd y Cyngorydd Thomas fod ganddo ddi-ddordeb yn y cwestiwn yn y papur am swyddogaeth y Cyngor Partneriaeth o ran gyrru'r camau gweithredu a argymhellir sy'n deillio o'r ymarfer hwn. Nododd fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ffordd o weithio drwy unrhyw oedi ac unrhyw faterion nad oes ond modd eu datrys drwy bartneriaeth, ac awgrymodd y gallai'r Cyngor Partneriaeth weithredu'r un dull gweithredu ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ranbarthol. Os oes meysydd allweddol o her polisi wedi'u nodi, nododd y gallai'r Cyngor Partneriaeth (neu is-grŵp) ddatblygu ymateb ar y cyd.

- Dywedodd y Cyngorydd Mark Pritchard mai ymddiriedaeth ac osgoi dyblygu oedd y prif faterion iddo ef yn bersonol wrth weithio'n effeithiol mewn partneriaeth ranbarthol
- Cyfeiriodd Maria Battle yn benodol at Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a nododd y byddai'n croesawu sgwrs fel rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth ar gyfer y gwaith hwn. Er ei bod yn cytuno â'r egwyddor o gynllunio strwythurau gweithio mewn partneriaeth yn lleol, nododd ei bod yn teimlo bod dyletswydd i osod safonau penodol yn genedlaethol er mwyn osgoi amrywiadau ar rai materion. Nododd, er enghraifft, fod gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro fframwaith canlyniadau rhagorol y gellid ei efelychu ar draws Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eraill. Daeth i'r casgliad bod achos i lywodraeth genedlaethol bennu fframweithiau ar gyfer dylunio lleol.
- Nododd y Cyngorydd Sean Morgan mai ef yw cadeirydd newydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent ac, wrth ymgymryd â'r rôl i ddechrau, ei fod wedi cwestiynu'r angen i gael Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a pha mor agos yr oedd eu huchelgeisiau'n cydfynd. Dywedodd ei fod bellach yn gallu gweld bod achos dros y ddau fwrdd a theimlai y gallai hyn fod yn fuddiol pe byddai mwy o weithio'n agos gyda chyfres o ganlyniadau ar y cyd.

15. Diolchodd y Gweinidog a Cefin Campbell i'r aelodau am eu hadborth defnyddiol a chau'r eitem drwy gadarnhau y byddai adroddiad yn nodi'r prif ganfyddiadau, casgliadau a chamau gweithredu a argymhellwyd yn cael ei gyflwyno i Gyngor Partneriaeth Cymru yn yr haf, er mwyn trafod a chytuno ar y ffordd ymlaen – gan gynnwys y dull gweithredu ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol.

Cam gweithredu 2: Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu â'r Cyngorydd Huw Thomas i fynd ar drywydd ei gynnig i rannu'r gwaith y mae Caerdydd wedi'i wneud ar adolygu ac ail-lunio trefniadau partneriaeth.

Cam gweithredu 3: Yr Ysgrifenyddiaeth i ofyn i'r tîm sy'n cynnal yr Adolygiad o Bartneriaethau wahodd Maria Battle i gael ei chyfweld fel rhan o'r gwaith o gasglu tystiolaeth gan randdeiliaid allweddol

Eitem 3 ar yr Agenda: Diweddariad ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

16. Croesawodd y Gweinidog y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, Hannah Blythyn AS, i'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (y Bil) a oedd ar hyn o bryd yng nghanm tri y broses ddeddfwriaethol pedwar cam ac, yn amodol ar graffu gan y Senedd, roedd yn gobeithio cael Cydsyniad Brenhinol ac i'r Bil ddod yn gyfraith ym mis Ebrill 2023.
17. Diolchodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol i'r aelodau am y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd y Bil. Teimlai fod cyfarfodydd fel Cyngor Partneriaeth Cymru yn enghraifft o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol yn ymarferol, sef yr hyn y mae'r Bil yn ceisio'i wreiddio ledled Cymru. Am y tro cyntaf gan Lywodraeth Cymru, mae'r Bil hefyd yn deddfu ar gaffael, sef un o'r prif ysgogiadau ar gyfer gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
18. Eglurodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol wrth yr aelodau fod y Bil yn cynnwys pedair prif elfen. Ceir crynodeb o bob un isod:
 - i. Sefydlu **Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru** gan ddwyn ynghyd gynrychiolwyr y Llywodraeth, cyflogwyr a gweithwyr a enwebwyd gan TUC Cymru.
 - ii. Gosod **Dyletswyddau Partneriaeth Gymdeithasol** newydd ar gyffwrdd cyhoeddus penodol, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, ac i Weinidogion Cymru.
 - iii. Diwygio **adran 4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy ddisodli 'gwaith teilwng' gyda 'gwaith teg'** o fewn y nod "Cymru lewyrchus" presennol.
 - iv. Mae'n creu **dyletswydd ar gyfer caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol**, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyffwrdd cyhoeddus penodol, gan gynnwys awdurdodau lleol, ystyried caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol, gosod amcanion mewn perthynas â nodau llesiant, a chyhoeddi strategaeth gaffael.
19. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda phartneriaid cymdeithasol ar wahanol elfennau'r Bil, yn enwedig gweithredu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a'r Ddyletswydd Caffael Cymdeithasol Cyfrifol. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn awyddus i weithio gydag aelodau i ddatblygu hyfforddiant ac arweiniad ac y byddai'n eu gwahodd i fod yn rhan o grŵp llywio i drafod datblygu hyfforddiant ac arweiniad ar y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn y lle cyntaf.

20. Fe wnaeth y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol gloi drwy ddiolch i bawb am eu cyfraniad i'r Bil hyd yma a chadarnhaodd y byddai'n fodlon trafod y camau nesaf a'u rhoi ar waith gyda'r aelodau.

21. Codwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Croesawodd yr aelodau'r Bil mewn egwyddor a'i fod yn rhoi'r trefniadau presennol ar sail statudol. Roedd y pwyntiau a godwyd mewn perthynas â phartneriaethau ledled Cymru yn gadarnhaol, gan eu bod yn teimlo bod y rhan fwyaf wedi gweithio'n dda a'u bod yn effeithiol.
- Codwyd rhai pwyntiau penodol ynghylch elfen gaffael y Bil:
 - angen sicrhau ei fod yn cynnig gwerth am arian. Deall pwysigrwydd menter gymdeithasol ond roedd cyfrifoldeb i gael y gwerth gorau am arian
 - Roedd Cymru eisoes yn gwneud gwaith da ar gaffael – mae rhai awdurdodau lleol yn cydweithio.
 - Holwyd ynghylch adeiladu'r Bil a'i elfennau ar gyfraith cyflogaeth a hyfforddiant o ran sut y byddent yn cael eu datblygu.

22. Croesawodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol y drafodaeth a thynnodd sylw aelodau at gylchlythyr y Bartneriaeth Gymdeithasol y gallent gofrestru ar ei gyfer i gael y newyddion, yr wybodaeth diweddaraf, polisïau, digwyddiadau ac ymgynghoriadau: <https://www.llyw.cymru/tanysgrifio-i-gylchlythyr-y-bartneriaeth-gymdeithasol>

Cam gweithredu 4: Awdurdodau Lleol i roi enghreifftiau i'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol o arferion da o gydweithio mewn partneriaethau a chaffael.

Eitem 4 ar yr Agenda: Blaenoriaethau ar gyfer Cyngor Partneriaeth Cymru

23. Cyflwynodd y Gweinidog yr eitem derfynol ar yr agenda. Cadarnhaodd mai ei phwrpas oedd i aelodau ystyried meysydd blaenoriaeth / themâu i'w trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol a sicrhau bod Cyngor Partneriaeth Cymru yn ymateb i faterion / blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg pan fyddant yn codi drwy gydol y flwyddyn.

24. Nododd y Gweinidog eitemau sefydlog blaenorol fel y Pandemig Covid ac yn fwyaf diweddar yr Argyfwng Costau Byw, a bod y Rhyfel yn Wcráin hefyd wedi bod yn faes blaenoriaeth i'w drafod. Nododd y Gweinidog fod cael Newid yn yr Hinsawdd fel eitem sefydlog gyfredol yn anfon neges gref am bwysigrwydd y gwaith hwn, ond gofynnodd am farn yr aelodau ynghylch a ddylai barhau fel eitem sefydlog neu a ddylid rhoi unrhyw ddiweddariadau arwyddocaol o bryd i'w gilydd fel y bo'n briodol. Soniodd y Gweinidog hefyd am werth y cyflwyniad heddiw gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd a theimlai y byddai cyflwyniadau o'r fath yn elfennau ychwanegol defnyddiol yn y dyfodol ar adegau priodol.

25. Roedd y Gweinidog yn awyddus i glywed gan aelodau a oedd meysydd / eitemau eraill yr hoffent eu gweld yn cael eu trafod yn y Cyngor Partneriaeth, neu a ddylid cynnal trafodaeth ar faterion blaenoriaeth fel Tai a Chynllunio.

26. Codwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Awgrymodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Alun Michael, y byddai'n ddefnyddiol cadw golwg ar effaith hirdymor yr Argyfwng Costau Byw, nid yn unig mewn perthynas â materion ariannol uniongyrchol ond yr effaith ar ymddygiad hirdymor hefyd. Roedd hefyd yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol ystyried ac archwilio'r effaith hirdymor y mae Covid wedi'i chael ar bobl ifanc ac ymddygiad y cyhoedd, gan gynnwys risgiau posibl lefelau uwch o gamddefnyddio sylweddau a'r effaith hirdymor ar wasanaethau cyhoeddus fel Byrddau Iechyd Lleol a Phlisma. Teimlai y byddai ei gael fel eitem reolaidd yn galluogi Cyngor Partneriaeth Cymru i rannu'r effaith wrth iddo ddatblygu. Byddai hefyd yn cysylltu â Diogelwch Cymunedol a Chydnheredd.
- Awgrymodd Maria Battle drafodaeth am fodelu newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol a'r effaith hirdymor y byddai'n ei chael ar ein cymunedau a'n systemau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a oedd eisoes dan straen sylweddol. Dywedodd Ms Battle y byddai'n croesawu trafodaeth genedlaethol am y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r systemau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a oedd yn galw am ddull system gyfan o arwain.
- Nododd y Cyngorydd Mark Pritchard y materion parhaus sy'n ymwneud â recriwtio a chadw staff yn y sectorau a theimlai y dylid ei ystyried fel rhan o'r trafodaethau gyda Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

27. Diolchodd y Gweinidog i'r aelodau am eu sylwadau. Teimlai fod awydd clir i feddwl mwy am yr hirdymor ar ôl treulio'r ddwy flynedd diwethaf yn delio'n adweithiol â chyfres o argyfyngau. Cytunodd y Gweinidog fod llawer y gallai Cyngor Partneriaeth Cymru ei ystyried fel grŵp i ddeall effeithiau hirdymor yr argyfyngau, yn enwedig mewn perthynas â lliniaru a pharodrwydd. Nododd y Gweinidog y pwyntiau a godwyd ynghylch recriwtio a chadw staff a theimlai ei bod yn her i bob aelod ac y dylai Cyngor Partneriaeth Cymru ystyried hynny ar y cyd.

28. Dywedodd y Gweinidog wrth yr aelodau ei bod wedi gwahodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i gyfarfod yn y dyfodol i drafod Cymraeg 2050.

Cam gweithredu 5: Yr Ysgrifenyddiaeth i ystyried y sylwadau a datblygu blaengynllun gwaith drafft ar gyfer Cyngor Partneriaeth Cymru i'r aelodau ei ystyried.

Sylwadau clo

29. Diolchodd y Gweinidog i'r holl aelodau am eu cyfraniad i'r trafodaethau, a dywedodd wrth yr aelodau y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf, dyddiad i'w gadarnhau.